



Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Mehefin 2025

Crynodeb	3
1. Cyflwyniad	5
2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol	6
3. Y darlun BBaCh yn y DU a Chymru: Amodau newidiol yn llywio'r galw am gyllid	15
4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	23
5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru	29
Casgliadau	34
Atodiad 1	35
Atodiad 2	36

Mark Lang, Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion
ymchwil, e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

*Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol
am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC / DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ArhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

Amodau economaidd

Yn eu hadroddiad Rhagolygon Economaidd y Byd ym mis Ebrill 2025, **rhagwelodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol y byddai twf byd-eang yn 2.8% yn 2025**. Roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad o 0.5 pwynt canran o'r rhagolwg a wnaed yn fersiwn Ionawr 2025 o adroddiad Rhagolygon Economaidd y Byd.

Dangosodd data gan yr SYG fod chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis **yn y DU yn 2.6% ym mis Mawrth 2025, i lawr o 2.8% ym mis Chwefror 2025**.

Ym mis Mawrth 2025 **pleidleisiodd Banc Lloegr i cadw'r Gyfradd Banc ar 4.5%**. Daeth hyn yn dilyn toriad o 0.25 pwynt canran ym mis Chwefror.

Yn **2024Ch4 amcangyfrifwyd bod cynnyrch domestig gros (CDG) y DU wedi cynyddu 0.1%**. Daeth hyn yn dilyn cyfnod o ddim twf yn 2024Ch3.

Rhwng Ionawr a Mawrth 2025, **roedd cyfanswm y swyddi gwag yn y DU wedi gostwng 125,000** lefel blwyddyn yn ôl.

Mae amcangyfrifon o TWE yn dangos gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflog yn y DU ar gyfer Mawrth 2025 i 30.3m, gostyngiad o 70,000 o weithwyr o'i gymharu â Mawrth 2024. **Yng Nghymru, gostyngodd nifer y gweithwyr ar y gyflogres 7,000 i 1.31m yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2025**.

Cyfradd anweithgarwch economaidd y DU oedd 21.4% iyn y chwarter rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025. **Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 25.9%**.

Roedd **gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru 15.1% i £16.5bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024**.

Yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024, y **prif bartneriaid masnach ar gyfer allforion Cymru** oedd yr Almaen (£2.69bn, neu 16%), yr Unol Daleithiau (£2.24bn, neu 14%), Iwerddon (£1.80bn, neu 11%), a Ffrainc (£1.69bn, 10%).

Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2025 oedd 0.8% ym mis Ebrill 2025, gostyngiad o 0.2 pwynt canran o'r rhagolwg cyfartalog a wnaed ym mis Mawrth 2025.

Amodau economaidd newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

Gwelwyd gostyngiad sylweddol pellach DU yn 2024Ch4 i -64.5 ym Mynegai hyder busnesau bach Ffederasiwn y Busnesau Bach, o -24.4 yn 2024Ch3. Dyma'r lefel isaf a gofnodwyd ers 2020Ch1. Parhaodd yr economi ddomestig i fod yn brif bryder i fusnesau bach fel rhwystr posibl i dwf.

Dangosodd data Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig (Monitor Cyllid BBaCh) ar gyfer Cymru fod 29% o fusnesau bach a chanolig (ac eithrio busnesau a ddechreuodd o'r newydd) wedi profi twf yn ystod Chwarter 4 2024. Yn y cyfamser, ar lefel y DU, profodd 30% o'r holl fusnesau bach a chanolig yn y DU a ymatebodd (ac eithrio busnesau newydd) dwf yn ystod Chwarter 4 2024.

Roedd nifer **y busnesau a fu farw yng Nghymru yn fwy na nifer y busnesau a sefydlodd eu busnes / genedigaethau yn ystod chwarter 4 2024**. Cyfanswm y busnesau a sefydlodd eu busnes yng Nghymru yn chwarter 4 2024 oedd 2,025, tra bod nifer y busnesau a fu farw yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,405.

Fe adroddodd Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y SYG ar gyfer 1af i'r 28ain o fis Chwefror 2025, adroddwyd bod **38.9% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn gwella yn y flwyddyn nesaf (DU 34.5%)**.

Dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod **prisiau tai'r DU wedi cynyddu 5.4% yn y 12 mis hyd at Chwefror 2025**. Pris cyfartalog tai yng Nghymru ym mis Chwefror 2025 oedd £207,383, sy'n cynrychioli cynnydd o 4.1% o fis Chwefror 2024.

Cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu S&P Global/CIPS UK **46.4** yng **ngweithgarwch adeiladu cyffredinol ym mis Mawrth 2025**, islaw'r marc 50 sy'n gwahaniaethu rhwng ehangu a chrebachu.

Y cyflenwad a'r galw am gyllid

Adroddodd benthycwyr fod **argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach a chanolig wedi cynyddu**, ac nad oedd wedi newid ar gyfer busnesau mawr, yn ystod Ch1 2025. Yn y cyfamser, adroddodd benthycwyr hefyd fod **y galw am fenthycia gan fusnesau bach wedi cynyddu ychydig**, a bod y galw gan fusnesau canolig a mawr wedi cynyddu, yn ystod Ch1 2025.

Adroddodd UK Finance fod **benthyciadau gros i fusnesau bach a chanolig y DU gan brif fanciau'r stryd fawr wedi gweld cynnydd o 13% flwyddyn ar flwyddyn yn ystod 2024** a bod benthyciadau newydd wedi cyrraedd £16bn yn ystod y flwyddyn.

Canfu *Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig* (Monitor Cyllid BBaCh) fod 46% **o fusnesau bach a chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod 2024Ch4**, i fyny o 43% yn ystod 2024Ch3. Yng Nghymru, defnyddiodd 41% o fusnesau bach a chanolig ryw fath o gyllid busnes yn ystod 2024Ch4, i fyny o 37% yn ystod 2024Ch3.

Yn ôl adroddiad *Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2024/25* Banc Busnes Prydain, roedd cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau bach yn y DU i lawr flwyddyn ar flwyddyn i 2024Ch3 o -24.3%. **Roedd nifer y bargeinion yng Nghymru hefyd i lawr dros y cyfnod hwn, ond i raddau llai (-14.3%) na chyfartaledd y DU**. Roedd cyfanswm gwerthoedd buddsoddiadau ecwiti flwyddyn ar flwyddyn hyd at 2024Ch3 ledled y DU i fyny 6.6%, ond i lawr yn sylweddol yng Nghymru (-45.7%) dros yr un cyfnod.

Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Gwnaeth Banc Datblygu Cymru **154 o fuddsoddiadau yn nhrydydd chwarter 2024/25**, gyda chyfanswm gwerth o bron i £49.8m.

Cynyddodd gwerth buddsoddiadau dros 47% yn 2024/25Ch3 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, gyda nifer y buddsoddiadau'n cynyddu **29% yn yr un cyfnod**. Y cynnydd mwyaf yn nifer a gwerth buddsoddiadau yn ystod y chwarter oedd yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru.

Roedd y buddsoddiadau a wnaed yn 2024/25Ch3 yn gysylltiedig â **1,230 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu**. Y sector adeiladu oedd y prif weithgarwch buddsoddi, gan gyfrif am **£15.4m o fuddsoddiad a 244 o swyddi**.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun macro-economaidd y mae busnesau bach a chanolig Cymru yn gweithredu ynddo ac yn archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid busnesau bach a chanolig, a'r cyflenwad a'r gost ohono. Mae adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru. Mae'r adran olaf yn darparu rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o anghydweddiad amserol bach o ddata yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd drafftio'r adroddiad hwn ar 22 Ebrill 2025.

Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru, mewn cydweithrediad â Banc Busnes Prydain, yr adroddiad cyntaf ar Fynediad at Gyllid gan Fusnesau Bach a Chanolig Cymru: Dadansoddiad o Wledydd Is-genedlaethol a Datganoledig¹. Yn dilyn hyn, comisiynodd Dirnad Economi Cymru a Banc Busnes Prydain ail arolwg ar raddfa fawr o fusnesau bach a chanolig ar fynediad rhanbarthol at gyllid yng Nghymru ar y cyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Ebrill 2025².

Yn ystod 2025, mae Dirnad Economi Cymru yn bwriadu cyhoeddi cyfres o allbynnau eraill gan gynnwys adroddiadau ar yr hyn a ganlyn:

- Llywodraethu a chyllido mentrau o dan arweiniad y gymuned yng Nghymru.
- Rôl 'arwyr cynhyrchiant' yn economi Cymru: eu cyfraniad at dwf a chynhyrchiant.
- Buddsoddi cynhyrchiol yng Nghymru: beth sy'n llunio penderfyniadau buddsoddi?
- Bancio ar-lein, bancio perthynas a benthyca i fusnesau bach a chanolig Cymru.

¹ https://developmentbank.wales/sites/default/files/2024-05/J0425_BBB_Wales_Report_WE_AW.pdf

² https://developmentbank.wales/sites/default/files/2025-04/J0610_BBB_Wales_Report_WELSH_v3%5B48%5D.pdf

- Yn dilyn cyhoeddiadau tariffau gan yr Unol Daleithiau, a'r ansicrwydd economaidd canlyniadol, cafodd rhagolwg twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2025 ei ddiwygio i lawr 0.5 pwynt canran i 2.8%, tra bod y rhagolwg byd-eang ar gyfer 2026 wedi'i israddio, 0.3 pwynt canran, i 3.0%.
- Ym mis Mawrth 2025 pleidleisiodd Banc Lloegr i gadw'r Gyfradd Banc ar 4.5%, gyda hyn yn dilyn toriad o 0.25 pwynt canran ym mis Chwefror 2025.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 2.6% ym mis Mawrth 2025, i lawr o 2.8% ym mis Chwefror 2025.
- Yn 2024Ch4 amcangyfrifwyd bod cynnyrch domestig gros (CDG) y DU wedi tyfu 0.1% yn ystod y chwarter, yn dilyn dim twf yn 2024Ch3.

Rhagolygon byd-eang

Yn ddiweddar, mae'r dirwedd economaidd fyd-eang wedi cael ei dominyddu gan benderfyniad yr Unol Daleithiau i ddechrau ar drefniadau tariff newydd, a gynlluniwyd yn rhannol i fynd i'r afael â diffyg masnach nwyddau'r Unol Daleithiau. Gohiriwyd y set gyntaf o dariffau, a gyhoeddwyd ddechrau mis Ebrill 2025, gyda thollau'n cael eu creu ar sail cenedl unigol, (ac eithrio Tsieina) am 90 diwrnod. Roedd hyn i alluogi trafodaethau masnach, ac yna rhoddwyd tariff 'sylfaenol' o 10% ar waith ar bob mewnforion i economi'r Unol Daleithiau, gyda chyfraddau uwch ar gynhyrchion fel ceir a dur.³ Cafodd y DU ei heffeithio'n gymharol ysgafn gan dariffau, gan wynebu'r llinell sylfaen o 10% - er i Jaguar Land Rover, a wynebwyd gan dariffau o 25%, gyhoeddi y byddai'n atal pob llwyth i'r Unol Daleithiau wrth iddo geisio "mynd i'r afael â'r telerau masnachu newydd",⁴ ac roedd Llywodraeth y DU yn edrych i wella perthnasoedd masnach ag economïau eraill fel India a'r UE.

Ym mis Ebrill 2025 cyhoeddodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (CARh/IMF) ei adroddiad ar Ragolygon Economaidd y Byd⁵ gyda rhagolygon twf byd-eang diwygiedig⁶ yn dilyn cyhoeddiadau tariffau'r Unol Daleithiau. Roedd y rhagamcan twf byd-eang newydd ar gyfer 2025, sef 2.8%, 0.5 pwynt canran yn is na'r rhagolwg yn Rhagolygon Economaidd y Byd ym mis Ionawr 2025⁷. Cafodd rhagolwg twf byd-eang yr CARh ar gyfer 2026 ei ddiwygio i lawr 0.3 pwynt canran i 3.0%. Ar lefel gwlad, rhagwelodd y Gronfa Ariannol Rhyngwladol (CARh) dwf CDG yn yr Unol Daleithiau i fod yn 1.8% yn 2025, sef diwygiad i lawr o 0.9 pwynt canran, ac mae'n disgwyl i dwf CDG yr Unol Daleithiau ostwng i 1.7% yn 2026. Y ffigurau cymharol ar gyfer ardal yr Ewro yw twf o 0.8% yn 2025 ac 1.2% yn 2026. Yn y DU, y rhagolwg twf yw 1.1% yn 2025 (diwygiad i lawr o 0.5 pwynt canran), cyn cynyddu i 1.4% yn 2026. Rhagamcan y CARh ar gyfer Tsieina, un o brif dargedau cyfundrefn tariffau'r Unol Daleithiau, oedd twf CDG o 4.0% yn 2025 (diwygiad i lawr o 0.6 pwynt canran) a 2026.

³ <https://www.bbc.co.uk/news/live/c1dr7vy39eet>

⁴ <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cj0zr0p77m0o.amp>

⁵ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/04/22/world-economic-outlook-april-2025>

⁶ Nododd yr CARh, o ystyried "cymhlethdod a hylifedd y foment bresennol, fod yr adroddiad hwn yn cyflwyno 'rhagolygon cyfeirnodol' yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar 4 Ebrill, 2025".

⁷ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/01/17/world-economic-outlook-update-january-2025>

Cyn y newyddion am dariffau yn UDA, roedd Adroddiad Interim Rhagolwg Economaidd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (a adwaenir yn gryno fel yr OECD), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025⁸, yn rhagweld twf cynnyrch domestig gros y byd o 3.1% ar gyfer 2025 (i lawr o 3.2% yn 2024), a 3.0% yn 2026. Roedd diwygiad twf tuag i lawr

i ragolygon 2025 a 2026, o Ragolwg Economaidd yr OECD mis Rhagfyr 2024⁹, o 0.2 pwynt canran a 0.3 pwynt canran yn y drefn honno. Priodolwyd y cyfyngiad mewn twf i ffactorau fel ansicrwydd polisi cynyddol yn effeithio ar fuddsoddiad a gwariant aelwydydd, a rhwystrau cynyddol i fasnach a fyddai'n ychwanegu at chwyddiant.

Datganiad Gwanwyn Canghellor y DU

Ym mis Hydref 2024, rhagwelodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) warged o £9.9bn yng nghyllideb Llywodraeth y DU erbyn 2029-30. Arweiniodd yr amodau economaidd heriol a ddilynodd, gyda phryderon diogelwch cynyddol yn Ewrop, twf economaidd araf, a chostau benthyca uwch (cynnyrch giltiau cynyddol), at ddiwygio'r SCC ei ragolygon i lawr i ddiffyg o £4.1bn. Er mwyn cyd-fynd â rheolau cyllidol

y Llywodraeth¹⁰, nododd Canghellor Trysorlys y DU yn Natganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth 2025¹¹ sut y byddai'r gwarged yn cael ei ailsefydlu. Roedd y mesurau'n cynnwys toriadau i wariant lles, diwygio gwasanaethau cyhoeddus i'w gwneud yn fwy cynhyrchiol, a chyfyngu ar osgoi trethi, yn ogystal â chynllunio diwygiadau a fyddai'n arwain at gynydd mewn CDG o adeiladu tai newydd.

Effaith cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a lleiafswm cyflogau'r DU

Mae heriau eraill i fusnesau'r DU, a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref 2024 (fel y nodwyd yn yr adroddiad chwarterol blaenorol¹²), yn cynnwys y cynnydd o fis Ebrill 2025, yng nghyfradd yr yswiriant gwladol y mae cyflogwyr yn ei dalu ar gyflogau staff (o 13.8% i 15%, gyda hyn yn berthnasol i gyfran fwy o enillion oherwydd gostyngiad yn y trothwy y telir y dreth uwchlaw). Yn ogystal, mae busnesau'n wynebu cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. O ganlyniad i'r ffactorau hyn

roedd adroddiadau bod cwmnïau'n bwriadu colli swyddi neu leihau recriwtio, a bod hyder ymhlith cwmnïau bach wedi cyrraedd pwynt isel.¹³ Nododd y *Rhagolwg Marchnad Lafur*¹⁴ a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ym mis Chwefror 2025, "...Mae cyflogwyr yn rhagweld costau uwch, ac yn bwriadu ymateb trwy gynyddu prisiau, lleihau recriwtio a lleihau buddsoddiad mewn twf a hyfforddiant busnesau...".

⁸ https://www.oecd.org/en/publications/oecd-economic-outlook-interim-report-march-2025_89af4857-en.html

⁹ https://www.oecd.org/en/publications/oecd-economic-outlook-volume-2024-issue-2_d8814e8b-en.html

¹⁰ Mae'r 'rheol sefydlogrwydd' yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth "symud y gyllideb gyfredol i gydbwysedd fel bod costau dyddiol yn cael eu talu gan refferniw, sy'n golygu mai dim ond ar gyfer buddsoddi y bydd y llywodraeth yn benthyca". Mae'r 'rheol fuddsoddi' i 'leihau dyled, a ddiffinnir fel rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus (a adwaenir yn y diwydiant fel PSNFL) neu 'ddyled ariannol net', fel cyfran o'r economi". Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/a-strong-fiscal-framework>

¹¹ <https://www.gov.uk/government/collections/spring-statement-2025>

¹² https://developmentbank.wales/sites/default/files/2025-02/EIW%20Quarterly%20report%20Q2_Accessibility.pdf

¹³ <https://www.bbc.co.uk/news/articles/ckg7gewqevqo>

¹⁴ <https://www.cipd.org/en/knowledge/reports/labour-market-outlook/>

Pwysau chwyddiant y DU

Cyhoeddodd y SYG ym mis Chwefror 2025 fod problem wrth gyfrifo'r Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr (MPC) wedi'i darganfod ac, o ganlyniad, oeddodd gyhoeddi data MPC, gyda chynlluniau i'w adfer yn ystod haf 2025.¹⁵ Roedd y data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod cyfradd flynyddol prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât y ffatri) wedi cynyddu 0.3% yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2025, i fyny o ostyngiad diwygiedig o 0.1% yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2024.¹⁶ Daeth y cyfranwyr mwyaf tuag i fyny at y gyfradd chwyddiant allbwn flynyddol ym mis Ionawr 2025 o allbynnau cynhyrchion bwyd (2.2%), ac "allbynnau eraill o weithgynhyrchu" (1.3%). Y cyfraniad mwyaf tuag i lawr at y gyfradd chwyddiant allbwn flynyddol

oedd trwy allbynnau golosg a phetrolewm wedi'i fireinio (-14.1%).

Dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd fod chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 2.6% ym mis Mawrth 2025, i lawr o 2.8% yn y deuddeg mis hyd at fis Chwefror 2025.¹⁷ Daeth y cyfraniadau mwyaf tuag i lawr i'r newid misol ar gyfradd chwyddiant flynyddol y MPD yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2025 o hamdden a diwylliant, a thanwydd modur.

Banc Lloegr yn cadw'r Gyfradd Banc yn sefydlog ym mis Mawrth 2025

Yn dilyn toriad o 0.25 pwynt canran ym mis Chwefror 2025, pleidleisiodd Banc Lloegr i gynnal y Gyfradd Banc ar 4.5% ym mis Mawrth 2025. Nododd y Crynodeb Polisi Ariannol ar gyfer mis Mawrth 2025 fod cynnydd ar ddadchwyddiant

dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi caniatáu i'r Banc lacio cyfyngiadau polisi rhywfaint "...tra'n cynnal y Gyfradd Banc mewn tiriogaeth gyfyngol er mwyn parhau i wasgu allan bwysau chwyddiant parhaus..."¹⁸

¹⁵ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/january2025>

¹⁶ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/january2025>

¹⁷ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/march2025>

¹⁸ <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2025/march-2025>

Mae amcangyfrif chwarterol cyfrifon cenedlaethol o CDG y DU yn dangos bod yr economi wedi cynyddu ychydig yn 2024Ch4

Amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros (CDG) real y DU wedi cynyddu 0.1% yn 2024Ch4, heb ei ddiwygio o'r amcangyfrif cyntaf.¹⁹ Dilynodd hyn dwf sero yn 2024Ch3. O'i gymharu â'r un chwarter flwyddyn yn ôl, amcangyfrifir bod CDG real y DU wedi cynyddu 1.5% yn 2024Ch4.

Yn ôl sector, cynyddodd allbwn mewn gwasanaethau'r DU 0.1% yn 2024Ch4, wedi'i ddiwygio i lawr o'r cynnydd amcangyfrifedig cyntaf o 0.2%. Y cyfranwyr cadarnhaol mwyaf at y twf mewn allbwn gwasanaethau yn 2024Ch4 oedd mewn gweithgaredd iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 0.7%) ac o'r is-sector gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (hefyd cynnydd o 0.7%). Y cyfraniad negyddol mwyaf at dwf yn 2024Ch4 oedd gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chymorth (gostyngiad o 1.2%) a adroddodd y SYG fod hyn wedi'i yrru'n bennaf gan ostyngiad o 5.5% mewn gweithgareddau cyflogaeth.

Gostyngodd allbwn mewn cynhyrchu yn y DU 0.4% yn 2024Ch4, wedi'i ddiwygio i fyny o amcangyfrif cyntaf o -0.8%. Roedd hyn yn cynrychioli'r trydydd chwarter yn olynol iddo ostwng. Un o brif ysgogwyr y gostyngiad mewn cynhyrchu oedd gostyngiad o 0.6% yn y sector gweithgynhyrchu – gyda'r cyfraniadau negyddol mwyaf gan is-sectorau metelau sylfaenol a chynhyrchion metel (gostyngiad o 2.9%) a gweithgynhyrchu offer trafndiaeth (gostyngiad o 2.0%). Tyfodd allbwn mewn adeiladu 0.3% yn 2024Ch4 (wedi'i ddiwygio i lawr o'r amcangyfrif chwarterol cyntaf o 0.5%) yn dilyn cynnydd o 0.4% yn y chwarter blaenorol.

Mae amcangyfrifon CDG misol yn dangos bod economi'r DU wedi tyfu 0.5% ym mis Chwefror 2025, gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod hyn oherwydd cynnydd ym mhob prif sector, yn dilyn dim twf ym mis Ionawr 2025.²⁰

Gostyngodd buddsoddiad busnes y DU yn 2024Ch4

Yn 2024Ch4, crebachodd buddsoddiad busnes y DU 1.9%, wedi'i ddiwygio i fyny o ostyngiad o 3.2% yn yr amcangyfrif dros dro, yn ôl

canlyniadau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y ffigur diwygiedig 1.8% yn uwch na'r lefel yn 2023Ch4.²¹

¹⁹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/quarterlynationalaccounts/latest>

²⁰ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/february2025>

²¹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/octobertodecember2024revisedresults>

Gostyngiad parhaus mewn swyddi gwag yn y DU

Yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2025 roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn 781,000 – gostyngiad o 26,000 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025.²² Ym mis Ionawr a Mawrth 2025 roedd cyfanswm y swyddi gwag i lawr 125,000 o lefel y llynedd, a 15,000 yn is na'u lefel rhwng Ionawr a Mawrth 2020. Nododd y SYG mai dyma'r tro cyntaf ers mis Mawrth a Mai 2021 i swyddi gwag fod yn is na'r ffigur pandemig cyn y coronafeirws (COVID-19). Y gostyngiadau cyfrannol mwyaf mewn swyddi gwag rhwng Ionawr a Mawrth 2025 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol oedd yn y diwydiannau gweithgareddau gwasanaeth eraill (gostyngiad o 14.4%) a mwyngloddio a chwarela (i lawr 12.5%).

Mae amcangyfrifon cynnar Gwybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill²³ yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y gweithwyr cyflog yn y DU ar gyfer mis Mawrth 2025 i 30.3m, gostyngiad o 70,000 o weithwyr (neu 0.2%) o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer mis Mawrth 2024. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2025, roedd y cynnydd mwyaf mewn gweithwyr cyflog yn y DU yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 70,200 o weithwyr neu 1.6%) a'r lleiaf yn y sector llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd (gostyngiad o 92,000 neu -4.2%).²⁴ Gwelwyd gostyngiad mewn gweithwyr cyflog rhwng mis Mawrth 2024 a mis

Mawrth 2025 hefyd mewn nifer o sectorau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchu, cyfanwerthu a manwerthu, gwybodaeth a chyfathrebu, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddol a chymorth.

Mae'n bosibl bod y gostyngiadau mewn swyddi gwag a gweithwyr cyflog yn rhannol oherwydd y teimlad y byddai busnesau'n lleihau recriwtio a chyfrif staff o ganlyniad i'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol y DU a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref 2024.

Gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru 7,000 (neu -0.5%) i 1.31m yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2025.²⁵ Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogedig yn ôl sector yn cael ei ddiweddar'u'n llai aml, ond mae'r data ar gyfer Ionawr 2025 yn dangos bod y gostyngiad mewn gweithwyr cyflogedig dros y flwyddyn ar ei uchaf mewn gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd (-3,090 o weithwyr cyflogedig, neu -3.2%), a gwasanaethau gweinyddol a chymorth (-2,160 o weithwyr cyflogedig, neu -2.4%).²⁶ Dros y flwyddyn hyd at Ionawr 2025, bu cynnydd o 3,200 (neu 1.4%) o weithwyr cyflogedig yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol a chynnydd o 1,250 (neu 1.6%) o weithwyr cyflogedig yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus.

Materion ansawdd yn ymwneud â data'r farchnad lafur yng Nghymru

Fel y nodwyd mewn adroddiadau chwarterol blaenorol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi nodi bod meintiau samplau llai a gyflawnwyd, oherwydd heriau wrth gynnal cyfraddau ymateb, wedi creu mwy o anwadalrwydd yn yr Arolwg o'r

Llafurlu (ALI), gyda data ar gyfer Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys cyfyngau hyder mawr.²⁷ O ganlyniad, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynghori y dylid defnyddio'r data hyn yn ofalus, a bod defnyddwyr yn ystyried gwybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau.

²² <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/april2025>

²³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/april2025>

²⁴ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²⁵ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²⁶ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted/current>

²⁷ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/december2024>

Newidiadau yng nghyfraddau diweithdra yn y DU ac yng Nghymru

Am y cyfnod o dri mis hyd at Chwefror 2025, amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU (pawb 16+ oed, wedi'i haddasu'n dymhorol) yn 4.4%, yn ôl ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.2 pwynt canran o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer y chwarter rhwng Rhagfyr 2023 a Chwefror 2024.²⁸

Roedd y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y tri mis a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2025 yn Llundain (6.5%), Cymru (4.8%),

Gogledd-ddwyrain Lloegr (4.8%), Dwyrain Lloegr (4.6%), Dwyrain Canolbarth Lloegr (4.4%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (4.4%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (1.5%), De-orllewin Lloegr (3.3%), Gogledd-orllewin Lloegr (3.8%), a De-ddwyrain Lloegr (3.9%).²⁹ Yng Nghymru, cynyddodd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Chwefror 2025 1.0 pwynt canran o'i gymharu â'r cyfnod o dri mis hyd at Chwefror 2024.

Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn parhau i gynyddu yn y DU a Chymru

Cynyddodd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn y DU (heb ei addasu'n dymhorol) 169,700 i 1.78m o bobl yn ystod y flwyddyn hyd at Fawrth 2025.³⁰

Yng Nghymru, hawliodd 67,465 o bobl fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Mawrth 2025 (sy'n cyfateb i 3.5% o'r boblogaeth breswyl 16 i 64 oed, heb ei haddasu'n dymhorol, o'i gymharu â ffigur o 4.2% ar gyfer y DU), cynnydd o 3,750 yn nifer yr hawlwr o'i gymharu â mis Mawrth 2024.³¹

Yr awdurdodau unedol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra, yn ôl y data ar gyfer mis Mawrth 2025, oedd Casnewydd (4.8%), Blaenau Gwent (4.2%), Caerdydd (4.0%), Conwy (4.0%), a Sir Ddinbych (hefyd 4.0%), a'r rhai gyda'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.5%), Ceredigion (2.8%), Powys (2.8%), Sir Gâr (3.0%), Sir y Fflint (hefyd 3.0%), a Phen-y-bont ar Ogwr (3.1%).

Anweithgarwch economaidd yn lleihau yn y DU a Chymru

Roedd cyfradd anweithgarwch economaidd y DU (wedi'i haddasu'n dymhorol, pawb rhwng 16 a 64 oed) yn y cyfnod rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025 yn 21.4% yn ôl data Arolwg o'r Llafurlu y SYG. Roedd hyn 0.7 pwynt canran yn is na'r gyfradd flwyddyn yn ôl (Rhagfyr i Chwefror 2024),³² gyda'r SYG yn nodi bod y gostyngiad blynyddol hwn mewn anweithgarwch wedi'i yrru gan y rhai oedd

yn economaidd anweithgar oherwydd eu bod yn fyfyrwyr, yn sâl hirdymor neu wedi ymddeol.

Gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru, yn y cyfnod rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2025, 2.0 pwynt canran yn ystod y flwyddyn i 25.9%.³³ Fel y nodwyd uchod, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data'r Arolwg o'r Llafurlu oherwydd problemau ansawdd parhaus.

²⁸ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/employmentintheuk/latest#unemployment>

²⁹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>

³⁰ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/outofworkbenefits/datasets/claimantcountcla01>

³¹ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Unemployment/Claimant-Count/claimantcount-by-welsh-local-areas-variable-month>

³² [ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/employmentintheuk/latest#economic-inactivity](https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/employmentintheuk/latest#economic-inactivity)

³³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>

Dirywiad yn allbwn diwydiant adeiladu Cymru o 2023Ch3 i 2024Ch3

Mae Ffigur 2.1 yn dangos y duedd ym mynegeion cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau marchnad Cymru o 2021Ch3 i 2024Ch3. Ychydig iawn o amrywiad a wnaeth y mynegai gwasanaethau marchnad yn ystod y cyfnod hwn, gan fod 0.7% yn is na lefel 2022 ar gyfer Cymru yn 2024Ch3. Roedd y ffigur cymharol ar gyfer y DU 1.1% yn uwch na lefel 2022. Roedd cynnydd bach ym mynegai cynhyrchu Cymru yn 2024Ch3, ond roedd yn dal i fod 5.8% yn is na lefel 2022 (roedd ffigur cymharol y DU 2.6% yn is na lefel 2022). Yn y cyfamser, gostyngodd mynegai adeiladu Cymru am y pedwerydd chwarter yn olynol yn 2024Ch3, gan fod 2.4% yn is na lefel 2022. Ar gyfer y DU gyfan, roedd y ffigur cymharol 2.5% yn uwch na lefel 2022.


Adroddodd crynodeb o amodau busnes Asiantau Banc Lloegr a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, ar draws diwydiant adeiladu'r DU

gyfan, fod cyfyngiadau ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys "oedi cynllunio, diffyg cysylltiadau cyfleustodau, costau uchel a rhywfaint o brinder llafur".

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd CBI Cymru ei adroddiad Cynllunio ar gyfer Twf yn nodi argymhellion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru a chyflymu adeiladu tai a phrosiectau seilwaith eraill. Nodir pum maes allweddol yn yr adroddiad: darparu adnoddau gwell ar gyfer awdurdodau cynllunio; arloesedd a thechnoleg i fod wrth wraidd strategaeth gynllunio gyffredinol; hybu cyflenwad tai a diwygio cynlluniau datblygu lleol; cymryd camau i fynd i'r afael â phrinder cynllunwyr ledled y wlad; a chydweithio mwy effeithlon ac agosach rhwng y llywodraethau datganoledig ar brosiectau seilwaith ar raddfa fawr.

Ffigur 2.1.

Mynegeion allbwn Cymru: tuedd 2021Ch3 - 2024Ch3 (2022=100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2022=100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau Marchnad (2022=100) yn ôl blwyddyn ac ardal.

Gostyngodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru yn y flwyddyn hyd at 2024Ch4

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynghori rhywfaint o ofal wrth ddehongli data ar fasnach. Fel arfer, cyhoeddir data mewn prisiau cyfredol neu enwol, sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant.

Ar gyfer y cyfnod hyd at 2024Ch4, mae data masnach nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng ngwerth allforion o holl wledydd y DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon, yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024 o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³⁴ Gostyngodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru 15.1% i £16.52bn yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024 (o'i gymharu â gostyngiad o 4.5% yn Lloegr, 3.6% yn yr Alban, a chynnydd o 1.1% yng Ngogledd Iwerddon).

Gostyngodd cyfanswm gwerthoedd allforion yn ôl cynhyrchion yng Nghymru yn y rhan fwyaf o gategorïau dros y flwyddyn hyd at Ragfyr 2024.³⁵ Gostyngodd cyfanswm allforion Tanwyddau Mwynau i £1.52bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024Ch4. Gostyngodd cyfanswm allforion Cemegau i £2.25bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024Ch4, o £2.41bn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 6.9%. Gostyngodd gwerth allforion cynhyrchion Peiriannau a Thrafnidiaeth Cymru i £7.86bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024Ch4, o £8.28bn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 5.1%.

Cyfanswm nifer yr allforwyr i Gymru yn 2024Ch4 oedd 3,096, gostyngiad o 50 (neu 1.6%) o 2023Ch4 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan³⁶). Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad o 4.1% ar gyfer y DU gyfan.³⁷ Dangosodd Cyllid a Thollau EM ddata cyfaint masnach a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at 2024Ch4 fod màs net o 5.9 biliwn cilogram wedi'i allforio o Gymru, gostyngiad o 26.4% o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³⁸

Yn y flwyddyn hyd at Ragfyr 2024, gostyngodd gwerth nwyddau a fewnforiwyd yng Nghymru 2.5% i £20.73bn o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Roedd hyn yn cymharu â gostyngiadau yng ngwerth mewnforyn yn Lloegr o 3.9%, yn yr Alban o 9.7%, a chynnydd yng Ngogledd Iwerddon o 1.8%.³⁹

Yng Nghymru, cyfanswm y mewnforyn yn 2024Ch4 oedd 8,901, cynnydd o 1.2% o'i gymharu â'r ffigur yn 2023Ch4. Yn y DU, cynyddodd cyfanswm y mewnforyn 3.0% dros yr un cyfnod.⁴⁰ Dangosodd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM, ar gyfer y flwyddyn hyd at 2024Ch4, fod màs net o 16.7 biliwn cilogram wedi'i fewnforio i Gymru, gostyngiad o 10.0% o'r flwyddyn flaenorol hyd at ddiwedd 2023Ch4.⁴¹

Yn dilyn statws arbennig Porthladd Rhydd Celtaidd Port Talbot ac Aberdaugleddau a lansiwyd ym mis Tachwedd 2024, lansiwyd Porthladd Rhydd Ynys Môn ym mis Mawrth 2025, gan alluogi buddion treth a thollau i fusnesau, a chyda'r nod o ddod yn ganolfannau cenedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddiad byd-eang.⁴²

³⁴ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2024/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2024>

³⁵ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2024/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2024#datasets>

³⁶ "Dull y rhif cyfan": Mae busnes yn cyfrif fel 1 ym mhob rhanbarth lle mae ganddo weithwyr.

³⁷ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2024/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2024#datasets>

³⁸ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>

³⁹ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2024/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2024>

⁴⁰ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2024/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2024>

⁴¹ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>

⁴² https://tradeandinvest.wales/inside-story/boost-ynys-mon-freeport-goes-live?dm_i=4SS6,10STB,MJJU,4RY47,1

Y cyd-destun ar gyfer Cymru wrth i drefniadau tariffau newydd gael eu cyhoeddi gan yr Unol Daleithiau

Fe wnaeth y strwythur tariff newydd a gyhoeddwyd gan yr Arlywydd Trump ym mis Ebrill 2025 effeithio ar weithgynhyrchu Cymru naill ai'n uniongyrchol neu drwy gadwyni cyflenwi, yn ogystal â lleihau hyder, cynyddu ansicrwydd, ac o bosibl effeithio ar benderfyniadau buddsoddi busnes - er y bydd marchnad yr Unol Daleithiau yn parhau i fod yn bwysig i gwmnïau Cymru.


Mae'r adran hon yn darparu rhywfaint o gyd-destun ychwanegol sy'n ymwneud â safle masnachu rhwngwladol Cymru. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o gysylltiadau masnach yn ôl gwlad a chynnyrch, yn ogystal ag ystyried yr economïau lleol posibl yng Nghymru a allai gael eu taro waethaf gan newidiadau yn strwythur a chostau masnach.

Mae'r data gan Gyllid a Thollau EM⁴³ a ddangosir yn Ffigur 2.2, yn tynnu sylw at y partneriaid masnachu gorau yn ôl gwerth masnach ar gyfer allforion nwyddau Cymru. Yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024, roedd gwerth allforion nwyddau Cymru yn £16.52bn⁴⁴, gyda'r partneriaid masnachu gorau yn ôl gwerth yn yr Almaen (£2.69bn, neu 16.3%), yr Unol Daleithiau (£2.24bn, neu 13.5%), Iwerddon (£1.80bn, neu 10.9%) a Ffrainc (£1.69bn, 10.2%).⁴⁵

Roedd gwerth mewnforion i Gymru yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024 yn £20.73bn, gyda'r partneriaid masnachu mwyaf yn ôl gwerth yn yr Unol Daleithiau (£4.21bn, neu 20.3%), Tsieina (£1.71bn, neu 8.2%), yr Iseldiroedd (£1.40bn, 6.8%), a'r Almaen (£1.21bn, neu 5.8%).

Ffigur 2.2.

Gwlad cyrchfan allforion nwyddau o Gymru: Canran o werth allforio yn ôl gwlad (blwyddyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024)



Ffynhonnell: Data Cyllid a Thollau EM: ar gael yn: <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table>

⁴³ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>

⁴⁴ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2024/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2024>

⁴⁵ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>

Dangosir gwerthoedd masnach yn ôl categori cynnyrch ar gyfer allforion Cymru i'r Unol Daleithiau, a mewnforyn ohonyn nhw, yn Ffigur 2.3. Mae hyn yn datgelu, yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024, mai yn nhermau gwerth punt, yr oedd yr allforion o Gymru i'r Unol Daleithiau ar eu uchaf yng nghategori cynnyrch Peiriannau ac offer trafndiaeth (£1.1bn) - yma yn enwedig yn is-gategori "Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer" (£0.49bn), a "Peiriannau, apiau ac offer trydanol" (£0.17bn).

Roedd cyfraniadau gwerth cymharol uchel o allforion yn yr is-gategori tanwyddau mwynau, ireidiau a deunyddiau cysylltiedig o "Petroliwm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig" (£0.23bn); ac is-gategori Cemegau a chynhyrchion cysylltiedig o "Cynhyrchion Meddyginiaethol a Fferyllol" (£0.21bn), i'r Unol Daleithiau.

Y mewnforyn gwerth uchaf i Gymru o'r UDA, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024, oedd yn y categori tanwyddau mwynau, ireidiau a deunyddiau cysylltiedig (£1.89bn), a pheiriannau ac offer trafndiaeth (£1.83bn). Yn y cyntaf, roedd yr is-gategori "Petroliwm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig" yn cyfrif am £1.82bn, ac yn yr olaf, roedd yr is-gategori "Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer" yn cyfrif am £1.37bn o fewnforyn Gymru o'r UDA.

Er bod data masnach nwyddau CThEM ar gyfer Cymru yn rhoi trosolwg diddorol o raddfa a chwmpas masnach uniongyrchol ag UDA, ac felly'n arwydd o'r posibilrwydd o fod yn agored i dariffau, dim ond rhannol yw hyn. Er enghraifft, mae cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn darparu mewnbynnau i gadwyni gwerth byd-eang, naill ai'n uniongyrchol, neu fel rhan o'r gadwyn gyflenwi i gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y DU, a allai wedyn gael eu heffeithio gan dariffau a allai fod yn uwch na'r DU.

Ffigur 2.3.
Gwerth masnach nwyddau rhwng Cymru ac UDA yn ôl categori cynnyrch (blwyddyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024)

Categori cynnyrch	Cyfanswm gwerthoedd allforio fesul cynnyrch Cymru i UDA (£000au)	% Gwerth holl allforion Cymru i UDA	Cyfanswm y gwerthoedd mewnforyn fesul cynnyrch o UDA i Gymru (£000au)	% Gwerth yr holl fewnforyn i Gymru o UDA
0 Bwyd ac anifeiliaid byw	18,986	0.8	15,015	0.4
1 Diodydd a thybaco	3,044	0.1	1,903	0.0
2 Deunyddiau crai, anfwytadwy, ac eithrio tanwydd	4,167	0.2	15,322	0.4
3 Tanwydd mwynol, ireidiau a chysylltiedig	227,162	10.1	1,888,138	44.8
4 Olewau, brasterau a chwyrau anifeiliaid a llysiau	1,037	0.0	248	0.0
5 Cemegau a chynhyrchion cysylltiedig	433,827	19.4	174,973	4.2
6 Nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu	225,080	10.1	185,261	4.4
7 Peiriannau a chyfarpar cludo	1,054,238	47.1	1,825,217	43.4
8 Eitemau gweithgynhyrchu amrywiol	267,602	12.0	101,695	2.4
9 Nwyddau/trafodion eraill	3,147	0.1	2,565	0.1
Cyfanswm	2,238,290	100.0	4,210,337	100.0

Ardaloedd o Gymru a allai gael eu taro waethaf gan newidiadau yn strwythur masnach

Dangosodd yr Arolwg Masnach diweddaraf ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ac a oedd yn cwmpasu'r flwyddyn 2022, fod y sector gweithgynhyrchu yn cyfrif am y rhan fwyaf (79%) o allforion o Gymru,⁴⁶ gyda busnes a gwasanaethau eraill yn dilyn ar 15%. Gellir cael rhyw arwydd o ardaloedd yng Nghymru sy'n fwy agored i newidiadau mewn masnach fyd-eang trwy ddadansoddi dwyster cyflogaeth gweithgynhyrchu yn ôl lleoliad.

Gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael adeg ysgrifennu o'r Arolwg Cofrestr Busnesau a Chyflogaeth (ACBC), a chan ddeillio cyfran y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (CALI)⁴⁷ sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu, mae

Ffigur 2.4 yn dangos yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'r ganran uchaf o weithwyr CALI yn y sector gweithgynhyrchu. Er enghraifft, mae data ACBC yn dangos mai Sir y Fflint sydd â'r nifer uchaf o weithwyr gweithgynhyrchu yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, sef dros 18,600, a'r gyfran gweithgynhyrchu uchaf o weithwyr (30.5%). Er mai dim ond ychydig dros 4,200 o weithwyr CALI gweithgynhyrchu sydd ym Mlaenau Gwent, mae'r rhain yn cyfrif am dros 26% o'r cyfanswm. Sylwch fod y data yn Ffigur 2.4 yn ymwneud â 2023, a bu rhai newidiadau sylweddol mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu ers hynny, er enghraifft gan gynnwys yn Tata Steel yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ffigur 2.4.
Awdurdodau lleol Cymru gyda'r ganran uchaf o weithwyr FTE mewn gweithgynhyrchu (2023)

Awdurdod Lleol	CALI mewn Gweithgynhyrchu	CALI mewn Gweithgynhyrchu fel % o'r holl CALI mewn awdurdod lleol
Sir y Fflint	18,640	30.5
Blaenau Gwent	4,290	26.4
Caerffili	11,080	23.2
Wrecsam	11,300	22.8
Castell-nedd Port Talbot	9,010	21.3
Torfaen	5,720	17.9

Ffynhonnell: SYG, ACBC, o NomisWeb.

⁴⁶ <https://www.gov.wales/trade-survey-wales-tsw-2022-official-statistics-development.html>
⁴⁷ Yma, gan dybio bod dau weithiwr rhan-amser yn hafal i un gweithiwr llawn amser.

Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o ragolygon annibynnol a dderbyniwyd rhwng 1 a 14 Ebrill 2025 yn *Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer Economi'r DU ym mis Ebrill 2025*.⁴⁸ Cyfartaledd y rhagolygon newydd ar gyfer twf CDG y DU yn 2025 oedd 0.8%, gostyngiad o 0.2 pwynt canran o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd gan gyfartaledd y rhagolygon newydd yng nghyhoeddiad mis Mawrth 2025.⁴⁹ Awgrymodd astudiaeth ar wahân, gan *Financial Times Research and Consensus Economics*, o ddeg rhagolwg ar gyfer economi'r DU (a wnaed ar ôl i'r UDA ddatgelu tariffau byd-eang mwy ymosodol), hefyd y bydd twf CDG y DU yn arafu i 0.8% yn 2025, i lawr o'r 1.2% a ddisgwyliwyd ym mis Ionawr.⁵⁰

Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn dangos crynodeb o ragolygon CDG dethol ar gyfer y DU ar gyfer 2025 a 2026, ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfradd Ddiweithdra'r LFS, a'r twf mewn prisiau ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) a Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM).

⁴⁸ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-april-2025>

⁴⁹ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-march-2025>

⁵⁰ <https://www.ft.com/content/3a2f29ca-13c0-480c-a0d1-9d2a09142fb6>

- Gostyngiad sylweddol yn hyder busnesau bach yn 2024Ch4.
- Roedd marwolaethau busnesau yng Nghymru yn fwy na genedigaethau busnesau yn ystod 2024Ch4.
- Profodd busnesau Cymru gynnydd mewn trosiant ym mis Chwefror 2025 a disgwyliwyd i drosiant gynyddu ymhellach yn ystod mis Ebrill 2025.

Poblogaeth fusnes

Mae'r data Amcangyfrifon Poblogaeth Busnes a gyhoeddwyd yn ddiweddar⁵¹ yn dangos bod 219,955 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru ar ddechrau 2024, sy'n cyfrif am 99.9% o holl

busnesau Cymru, a 73.3% o gyflogaeth y sector preifat. Roedd y mwyafrif llethol o'r rhain (95.6%) yn ficro-fentrau yn cyflogi llai na deg o bobl.

Gostyngiad sylweddol yn hyder busnesau bach yn 2024Ch4

Fe brofodd Mynegai Busnesau Bach y DU (MBB)⁵² Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB) ostyngiad sylweddol yn ystod 2024Ch4 i -64.5 (o -24.4 yn 2024Ch3)⁵³. Dyma oedd y trydydd cwmpw chwarterol yn olynol mewn hyder busnesau bach a'r lefel isaf a gofnodwyd ers dechrau'r pandemig yn 2020Ch1. Mae Ffigur 3.1 yn dangos tuedd MBB yr FfBB rhwng 2022Ch4 a 2024Ch4.

Yn 2024Ch4, roedd balans net busnesau bach a oedd yn adrodd am dwf refeniw yn -32.1, gwaethygiad sylweddol o'r -13.8% a gofnodwyd

